CYNGOR TREF DINBYCH
Neuadd y Dref
Lôn Crown
DINBYCH
Sir Ddinbych
LL16 3TB

DENBIGH TOWN COUNCIL
Town Hall
Crown Lane
DENBIGH
Denbighshire
LL16 3TB

Ffôn: 01745 815984Tel: 01745 815984

Clerc y Dref **Jenny Barlow** Town Clerk

e-bost: townclerk@denbightowncouncil.gov.uk e-mail

4 o Fai 2023

**At holl Gynghorwyr Cyngor Tref Dinbych**

Annwyl Gynghorydd,

**AGENDA - Cyfarfod Llawn o'r Cyngor**

A fyddwch mor garedig â nodi y cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor **Dydd Mercher, 11 on Fai 2023 am 6.30 o'r gloch. - Cyfarfod Zoom fydd hwn**. Rydych wedi eich galw i fynychu'r cyfarfod ac rwy'n fawr obeithio y byddwch yn gallu bod yn bresennol

Mae Jenny Barlow yn eich gwahodd i gyfarfod Zoom.

Topic: Cyngor Tref Dinbych

**Dydd Mercher 10 o Fai 2023 am 6.30yh**

Join Zoom Meeting
https://us02web.zoom.us/j/3864083388?pwd=MkcxT0xmVTZiMENFc1FTYmxmZGFlQT09

**Meeting ID: 386 408 3388**
**Password: 815984**

One tap mobile
02034815237,,3864083388#,,,,0#,,815984# United Kingdom
02034815240,,3864083388#,,,,0#,,815984# United Kingdom

Dial by your location
0203 481 5237 United Kingdom
0203 481 5240 United Kingdom
0203 901 7895 United Kingdom
0131 460 1196 United Kingdom
0203 051 2874 United Kingdom

**Meeting ID: 386 408 3388**
**Password: 815984**

Find your local number: https://us02web.zoom.us/u/kKUTOBzb7

Yn gywir

Jenny Barlow
Clerc y Dref

**AGENDA**

1 Gweddi Agoriadol – Norma Rowles.

2 Ymddiheuriadau.

3 Anerchiad Blynyddol y Maer: Cynghorydd Alyn Ashworth.

4 Ethol Maer am y flwyddyn 2023 – 2024.

5 Pleidlais o ddiolch gan y Cynghorydd Alyn Ashworth.

6 Anerchiad y Maer am y flwyddyn i ddod.

7 Ethol Dirprwy Faer am y flwyddyn 2023 – 2024.

8 Adroddiad presenoldeb Cynghorwyr am y flwyddyn 2022 – 2023.

9 Penodi Caplan y Maer am y flwyddyn 2023 – 2024.

10 Gwasanaeth Dinesig (cyhoeddiad gan y Maer).

11 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (i'w gytuno gan y cynghorwyr tref)

12 Cynllun Hyfforddi Cyngor Tref (i'w gytuno gan y cynghorwyr tref)

13 Gweddi Gloi – Norma Rowles.

**Copi i bob Cynghorydd Tref**

## Cynghorwyr Tref Dinbych Cofrestrau Presenoldeb

## ar gyfer y Flwyddyn 2022-2023

## Denbigh Town Councillors Attendance

## for the Year 2022-2023

| Cyng/Cllr | Presenoldeb/Attendance | % |
|---|---|---|
| Alyn Ashworth | 19/19 | 100% |
| Sylvia Jennings | 11/12 | 92% |
| Catherine Jones | 14/14 | 100% |
| Gaynor Morgan Rees | 14/17 | 82% |
| Lara Pritchard | 9/17 | 53% |
| Philip Stevens | 18/18 | 100% |
| Roy Tickle | 16/16 | 100% |
| Jan Tomlinson | 12/14 | 86% |
| Gaynor Wood-Tickle | 17/17 | 100% |

**Cyngor Tref Dinbych – Deddf Amgylchedd (Cymru) 2016**

Dyma ein datganiad polisi sy'n dangos ein ymroddiad tuag at y ddeddf a'n cyfrifoldebau i gydymffurfio gyda'r ddeddf ar lefel corfforaethol.

**Tir ym meddiant y Cyngor Tref**

1. Gardd Goffa Dr. Evan Pierce (wedi'i restru)
2. Tir ar safle Amgueddfa Dinbych

**Tir sydd gan y Cyngor Tref peth rheolaeth drosto**

1. Rhai ymylon gwyrdd lle mae'r cyngor wedi cymeryd cyfrifoldeb dros dorri gwair.

Mae'r cyngor yn ymrwymo i gynnal a gwella yr amgylchedd naturiol ac adeiladol i drigolion ac eraill. Mi fyddwn yn ceisio a chydymffurfio gyda S6 ym mhob mater sy'n unol gyda ymarfer dyletswyddau'r cyngor. Rydym yn ymrwymo i ymarferion amgylcheddol da ym mhob mater ac ar bob darn o dir rydym yn eu perchen neu a rydym a rheolaeth drostynt.

Mi fyddwn hefyd yn cynnig cymorth ac arweiniad i bartneriaid er mwyn codi ymwybyddiaeth am yr angen am gynaladwyedd a bioamrywiaeth.

**Camau ymarferol**

1. Fel cyngor rydym yn barod wedi ymrwymo i leihau ein defnydd o blastig defnydd sengl.
2. Ar ffurflenni cais am grantiau mi fyddwn yn gofyn i'r mudiadau sy'n ceisio am grant gan y cyngor i esbonio sut maen't yn bwriadu lleihau eu defnydd o blastig defnydd sengl.
3. Mi fydd y cyngor yn symud i drefn o gyfathrebu yn electroneg gyda bob cynghorydd onibai bod cynghorydd unigol yn gofyn i gael derbyn copi o waith y cyngor ar bapur.
4. Hysbysir partneriaid fel Dinbych yn Blodeuo a Bodfari Environmental ein bod yn disgwyl iddynt beidio a defnyddio chwynladdwyr a plaladdwyr diangen ar dir y cyngor, ar dir sy'n cael eu reoli gan y cyngor neu ar brosiectau sy'n cael eu ariannu gan y cyngor.

5. Mi fydd y cyngor yn parhau i weithio gyda ysgolion lleol ar faterion amgylcheddol. Mae gan gynghorwyr tref sydd hefyd yn lywodraethwyr ysgol rol bwysig i chwarae wrth iddynt gyfathrebu rhwng y Cyngor Tref a'r cyngor ysgol.
6. Lle mae'r cyngor yn gyfrifol am dorri gwair fe ystyrir yr angen am ymylon blodau gwyllt er mwyn annog peillwyr.
7. Engreifftiau o'r hyn mae'r cyngor yn ei ddisgwyl. Defnyddio compost di-fawn. Plannu planhigion addas i beillwyr. Peidio defnyddio papur lapio na fedr eu ailgylchu. Unrhyw weithgaredd a gefnogir yn ariannol gan y cyngor i gynhyrchu'r swm lleiaf o wastraff a phosibl na fedr eu ailgylchu a hefyd dylid darparu adnoddau ailgylchu ar gyfer y cyhoedd a masnachwyr.

8. Mi fydd y cyngor yn annog busnesau lleol o'r angen i fabwysiadu arferion sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd.

**Cyflwynwyd i'r cyngor llawn Chwefror 2022**

**Cytunwyd gan y cyngor llawn 22.02.2023 – eitem 170**

Cynllun Hyfforddiant Cyngor Tref Dinbych 2022/23

Cyflwynwyd y Cynllun Hyfforddiant hwn i'r Cyngor yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Rhagfyr 2022 i'w adolygu, ei gymeradwyo a'i fabwysiadu.

Cyflwyniad

Mae Cyngor Tref Dinbych wedi ymrwymo i ddarparu hyfforddiant i'w aelodau a'i staff i'w galluogi i gyflawni eu rolau er mwyn gwella'r Cyngor a'r gymuned a wasanaethir a datblygiad personol y Cynghorwyr hefyd.

Hyfforddiant

Diffinnir hyfforddiant fel "proses gynlluniedig i ddatblygu galluoedd yr unigolyn ac i fodloni anghenion cyfredol y sefydliad a'i anghenion yn y dyfodol." Gellir categoreiddio dysgu fel a ganlyn:

- Greddfol – dysgu sy'n digwydd trwy siawns ac mae'n bosibl nad ydym ni'n ymwybodol ohono.
- Digwyddol – dysgu trwy fyfyrio ar ddigwyddiadau neu weithgareddau penodol.
- Ôl-weithredol – dull systemataidd o fyfyrio ar weithgareddau ac adnabod a nodi'r hyn a ddysgwyd ohonynt.
- Rhagweithiol – cynllunio i ddysgu o weithgaredd, myfyrio arno a chynllunio i ddefnyddio'r hyn a ddysgwyd.

Rhagwelir y bydd dysgu gan aelodau a staff yn adlewyrchu nifer o'r elfennau uchod.

Nodau Hyfforddiant

Nodau hyfforddiant y Cyngor yw:

1. Gwella dealltwriaeth yr aelodau am eu rôl fel Cynghorydd lleol, y pwerau y gall y Cyngor eu defnyddio a'r ffordd orau o ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael i'r Cyngor er mwyn gwella'r gymuned i'r trigolion a wasanaethir.
2. Darparu'r hyfforddiant angenrheidiol i'w staff i sicrhau eu bod yn medru cyflawni eu swydd.
3. Sicrhau lefel dderbyniol o gynllunio olyniaeth er mwyn sicrhau:
    a. Bod y Cyngor yn medru gweithredu'n effeithiol yn dilyn etholiadau lleol a newidiadau potensial i aelodaeth y Cyngor.
    b. Bod y Cyngor yn medru parhau i weithredu yn ystod cyfnodau lle nad yw'r staff ar gael (e.e. gwyliau, salwch, trosiant staff ac ati).

## Hyfforddiant Staff

| | |
|---|---|
| Pob aelod staff newydd i dderbyn hyfforddiant cynefino | Fel a phan fo angen |
| Pob aelod o staff i gael arfarniad i nodi anghenion hyfforddiant a datblygiad | Yn flynyddol |
| Annog pob aelod o staff swyddfa i gyflawni'r isod, a bydd y Cyngor yn darparu cymorth ariannol ar eu cyfer:<br><br>1. ILCA – Cyflwyniad i Weinyddiaeth Cynghorau Lleol<br>2. FILCA – Cyflwyniad Ariannol i Weinyddiaeth Cynghorau Lleol<br>3. CILCA – Tystysgrif mewn Gweinyddiaeth Llywodraeth Leol | Yn barhaus |
| Annog yr holl staff i ddarllen cyhoeddiadau rheolaidd a diweddariadau a gyhoeddir trwy gyfrwng gwefannau:<br><br>- SLCC<br>- The Clerk<br>- Un Llais Cymru | Yn fisol |
| Annog yr holl staff i fynychu hyfforddiant sy'n berthnasol i'w swydd | Yn barhaus |

## Y Cyngor

| | |
|---|---|
| Y Cyngor i ddyrannu cyllideb hyfforddiant i dalu am weithgareddau hyfforddiant, presenoldeb mewn cynadleddau a chyhoeddiadau hyfforddiant i aelodau a staff | Yn flynyddol |

## Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Bydd pob Cynghorydd yn derbyn Pecyn Cynefino i Aelodau Newydd yn dilyn etholiadau Cynghorau Lleol gynted ag y bo'n ymarferol bosibl ar ôl yr etholiadau lleol. | Bob pedair blynedd |
| Anogir yr holl Gynghorwyr i gwblhau awdit sgiliau er mwyn adnabod anghenion hyfforddiant. | Yn flynyddol |
| Bydd yr holl Gynghorwyr yn cwblhau hyfforddiant am y Cod Ymddygiad cyn pen 6 mis yn dilyn cyflwyno eu datganiad derbyn y swydd. | Ar adeg ei ethol i'r swydd |
| Anogir yr holl Gynghorwyr i fynd i gynadleddau a digwyddiadau hyfforddiant fel bo'n briodol o ran anghenion a chyfrifoldebau'r aelodau a'r Cyngor. | Yn flynyddol |
| Dylai Cynghorwyr a etholir i'r Pwyllgor Staffio/Personél dderbyn hyfforddiant oni bai eu bod eisoes yn gymwys yn y maes hwn. | Ar adeg ei ethol i'r Pwyllgor a fel a phan fo angen |
| Anogir yr holl Gynghorwyr i ddarllen y cyhoeddiadau isod:<br>- Canllaw y Cynghorydd Da<br>- Llywodraethu ac Atebolrwydd – Canllaw i Ymarferwyr | Ar adeg ei ethol i'r swydd |